Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2022-23






**Cyngor Osteopathig Cyffredinol**

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23**

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 40(5) o Ddeddf Osteopathiaid 1993

© Cyngor Osteopathig Cyffredinol 2023

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a theitl y ddogfen a nodir.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, Llundain SE1 3LU.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o'n gwefan: **osteopathy.org.uk/annualreport**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol | 7 |
| 2. Cyflwyniadau gan Gadeirydd y Cyngor, a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd | 8 |
| 3. Ein nodau strategol | 9 |
| 4. Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn ein strategaeth yn 2022-23 | 10 |
| 5. Ein gwaith ar draws pedair gwlad y DU yn 2022-23 | 16 |
| 6. Edrych i'r dyfodol: gweithgareddau allweddol ar gyfer 2023-24 | 17 |
| 7. Ein llywodraethiant, rheolaeth a risgiau | 19 |
| 8. Adroddiad ariannol a chyfrifon ar gyfer 2022-23 | 22 |

# 1 Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 ac mae ganddo ddyletswydd statudol i reoleiddio a datblygu'r proffesiwn osteopatheg yn y DU i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

| | |
|---|---|
| Mae ein rôl yn cynnwys dilyn yr amcanion canlynol: | • diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd<br>• hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopatheg<br>• hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau o'r proffesiwn |
| Ein swyddogaethau craidd yw: | • sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant osteopathig<br>• cofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys yn flynyddol a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer<br>• pennu a hyrwyddo safonau uchel o ymarfer ac ymddygiad osteopathig<br>• helpu cleifion gyda chwynion neu bryderon am osteopathiaid a, lle bo angen, ymdrin â'r cwynion hynny drwy weithdrefnau addasrwydd i ymarfer |

Amcanion statudol y Cyngor yw ei amcanion elusennol hefyd. Drwy gyflawni ein hamcanion statudol fel yr amlinellir drwy'r gweithgareddau yn yr adroddiad hwn, gall yr ymddiriedolwyr gadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ers Ebrill 2017 (rhif cofrestru 1172749).

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn wedi'u gosod gerbron dau Dŷ'r Senedd a'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

# 2 Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur ond wedi gweld llawer o gynnydd cadarnhaol, gan gynnwys bodloni Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol unwaith eto.



Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â bod yn hunanfodlon, ac mae llawer o waith i'w wneud i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein prif gyfrifoldeb i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd.

Elfen allweddol o'r gwaith hwn yw datblygu ein strategaeth newydd sy'n mynd â ni tuag at 2030.

Fel Cyngor, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu amlinelliad y strategaeth newydd hon a thros yr haf byddwn yn ymgynghori â'n holl randdeiliaid i ddatblygu a mireinio hyn ymhellach gyda'r bwriad o'i lansio yn gynnar yn 2024. Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad – mae eich barn yn bwysig.

Dyma fy Adroddiad Blynyddol olaf wrth i'm tymor yn y swydd ddod i ben ar 31 Mawrth 2024. Mae trefniadau ar y gweill eisoes i benodi fy olynydd mewn da bryd i sicrhau pontio trefnus.


Mae bod yn Gadeirydd y Cyngor wedi bod yn fraint enfawr, a hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad; ein rhanddeiliaid niferus am eu hymgysylltiad adeiladol; aelodau ein pwyllgorau amrywiol am eu cyfraniad amhrisiadwy; fy nghyd-aelodau o'r Cyngor y bu'n bleser gweithio gyda nhw ac yr wyf yn ddyledus iawn am eu cefnogaeth; a'r holl osteopathiaid hynny rwyf wedi eu cyfarfod ar hyd y ffordd sydd wedi rhoi cymaint o groeso i mi.



**Dr Bill Gunnyeon CBE**
Cadeirydd y Cyngor
20 Gorffennaf 2023

# Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Ers dod yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd, mae'r amgylchedd y mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi gweithredu ynddo wedi bod yn un o newid a her barhaus.



Mae effaith y pandemig yn parhau i gael ei deimlo, yn enwedig gan y rhai sy'n gweithio ym maes gofal iechyd. A nawr yr argyfwng costau byw a chwyddiant sy'n cael y sylw ar y newyddion gyda'r effeithiau'n cael eu teimlo gan sefydliadau, gan gynnwys y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, gan weithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys osteopathiaid a chan bob un ohonom fel unigolion.

Parhaodd yr heriau y mae osteopathiaid yn eu hwynebu i fod yn flaenllaw ac yn ganolog yn ein meddyliau eleni ac roeddwn yn falch bod y Cyngor wedi rhewi ffioedd cofrestru unwaith eto. Er efallai na fyddwn yn gallu ailadrodd hyn bob blwyddyn, roeddem yn teimlo na ddylem gynyddu'r baich ariannol yn ystod yr argyfwng costau byw presennol.

Mae fy nhîm yma yn y Cyngor wedi cynnal nifer o weithgareddau eleni, gan gefnogi osteopathiaid; gwrando ar gleifion; ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein gwaith a chydweithio â'n partneriaid i'n helpu i sicrhau diogelwch cleifion.

Hoffem ddiolch i bob un ohonoch sydd wedi gweithio gyda ni eleni ac edrychwn ymlaen at gynnal a datblygu'r cysylltiadau hynny yn y blynyddoedd i ddod.

Mae yna naws wahanol i'r Adroddiad Blynyddol eleni – rydym wedi ei wneud yn fyrrach ac yn fwy cryno i helpu i roi mwy o gipolwg o'r flwyddyn. Gobeithio y byddwch yn gweld yr adroddiad yn ddiddorol ac rydym yn croesawu eich adborth yn fawr.



**Matthew Redford**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
20 Gorffennaf 2023

# 3 Ein nodau strategol

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023.

Yn 2019, cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Strategol pedair blynedd sy'n nodi beth mae'r sefydliad am ei gyflawni yn y cyfnod 2019-2024. Gweler: **osteopathy.org.uk/strategic-plan**

O fewn y cynllun hwn, rydym yn disgrifio ein gweledigaeth fel rheoleiddiwr:

> Partneriaeth mewn safonau proffesiynol sy'n cyflawni ein dyletswydd statudol i ddiogelu'r cyhoedd a hyrwyddo diogelwch a lles cleifion trwy reoleiddio modern sy'n cefnogi ac yn datblygu osteopathiaid.

Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar bedwar amcan strategol lefel uchel sy'n pennu cyfeiriad y cylch cynllunio pedair blynedd rhwng 2019 a 2024:

### Nod strategol 1:

Byddwn yn cefnogi'r proffesiwn osteopathig i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a fydd yn diogelu cleifion a'r cyhoedd yng nghyd-destun newidiadau yn nhirwedd ddynamig gofal iechyd.

### Nod strategol 2:

Byddwn yn datblygu ein sicrwydd ynghylch addysg osteopathig i gynhyrchu graddedigion o ansawdd uchel sy'n barod i ymarfer.

### Nod strategol 3:

Byddwn yn meithrin perthynas agosach â'r cyhoedd a'r proffesiwn yn seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder.

### Nod strategol 4:

Byddwn yn esiampl o reoleiddio gofal iechyd modern – hygyrch, effeithiol, arloesol, ystwyth, cymesur ac adlewyrchol.

# 4 Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn ein strategaeth yn 2022-23

**Nod strategol 1:** Byddwn yn cefnogi'r proffesiwn osteopathig i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a fydd yn diogelu cleifion a'r cyhoedd yng nghyd-destun newidiadau yn nhirwedd ddynamig gofal iechyd.

## Safonau Ymarfer Osteopathig

Eleni fe wnaethom barhau i ddarparu cefnogaeth i osteopathiaid i ymarfer yn unol â'r Safonau Ymarfer Osteopathig (OPS). Y Safonau yw ein safonau ymddygiad, moeseg a chymhwysedd craidd ar gyfer osteopathiaid ac ymarfer osteopathig, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag osteopathiaid, cleifion a rhanddeiliaid eraill. Ffocws allweddol i ni oedd parhau ac annog trafodaeth ynghylch ffiniau proffesiynol, gan ddarparu dealltwriaeth ddefnyddiol i lywio ystyriaeth a dealltwriaeth osteopathiaid o'r pwnc pwysig hwn.

Gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad thematig y moesegydd meddygol, Julie Stone, o addysg a hyfforddiant ffiniau o fewn darparwyr addysg osteopathig y DU, a nododd arfer da ac argymhellion ar gyfer addysg osteopathig a'r sector yn ei gyfanrwydd. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r canfyddiadau hyn, gwnaethom ddechrau cyfres o weithdai gyda'r nod o rannu'r ddealltwriaeth yn y proffesiwn, gan ddefnyddio egwyddorion craidd theori newid ymddygiad i werthuso ein heffaith ein hunain yn y maes hwn.

Er mwyn cefnogi'r sgyrsiau hyn, fe wnaethom ddatblygu a threialu gweithdy ar arfer barn broffesiynol, gan ddefnyddio senarios achos a thrafodaeth grŵp ymhlith osteopathiaid, a chyflwyno i ddigwyddiadau sector cyfan drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys y corff proffesiynol, sioeau teithiol y Sefydliad Osteopatheg, a chyfarfodydd grwpiau osteopathig rhanbarthol. Ein nod gyda'r gweithdy hwn oedd helpu osteopathiaid i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio eu barn broffesiynol eu hunain i lywio gwahanol sefyllfaoedd yn ymarferol. Cawsom adborth cadarnhaol gan osteopathiaid a oedd yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ddefnyddio eu dysgu wrth ymarfer.

Gan gydnabod bod osteopathiaid yn cymhwyso amrywiaeth eang o arferion triniaeth yn aml, llawer ohonynt yn ymgorffori therapïau cyflenwol neu atodol neu fathau eraill o ofal neu driniaeth yn eu hymarfer, fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi canllawiau i gefnogi'r osteopathiaid hynny i ymarfer yn unol â'r OPS. Mae ein canllawiau yn cael eu llywio gan adborth gan osteopathiaid a chleifion a gasglwyd yn ystod ymgynghoriad yn gynnar yn 2022, a'r bwriad yw i osteopathiaid eu defnyddio wrth ystyried sut mae'r OPS yn berthnasol i bob agwedd ar eu gwaith.

## Cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Gwnaethom barhau â'n gwerthusiad parhaus o'r cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), gan ddefnyddio data amrywiol gan gynnwys hunanddatganiadau DPP, ein data proses pryderon a chyfweliadau ansoddol gydag osteopathiaid.

Mae ein canfyddiadau wedi dangos bod y cynllun yn cael ei weithredu'n dda ar y cyfan ac mae'r ymgysylltiad yr ydym wedi'i gael gyda'r proffesiwn wedi bod yn gadarnhaol. Yn fwy penodol, mae cyflwyno gweithgaredd gorfodol ar sail cyfathrebu a chydsyniad wedi cael effaith gadarnhaol ar lefel y pryderon sy'n cael eu hadrodd ynghylch cydsyniad.

**Nod strategol 2:** Byddwn yn datblygu ein sicrwydd ynghylch addysg osteopathig i gynhyrchu graddedigion o ansawdd uchel sy'n barod i ymarfer.

## Gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Ym mis Medi 2022, fe wnaethom weithredu ein Canlyniadau Graddedigion diwygiedig a'r Safonau newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant, ar gyfer addysg osteopathig cyn-gofrestru. Mae'r canlyniadau graddedig diwygiedig yn cynnwys mwy o ffocws ar feysydd gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Adlewyrchir y meysydd hyn yn y Safonau Addysg a Hyfforddiant newydd hefyd, sy'n cynnwys safonau sy'n ymwneud â diwylliant dysgu, a llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn rhaglenni addysg.

Fe wnaethom ddechrau asesu cynnydd darparwyr addysg osteopathig yn erbyn y safonau a'r canlyniadau fel rhan o'n prosesau sicrhau ansawdd, gan sicrhau bod darparwyr yn cael cymorth ac arweiniad cyn eu gweithredu. Cawsom adborth cadarnhaol gan ddarparwyr addysg, a oedd yn teimlo bod y broses yn gymesur gan eu bod yn gallu adeiladu ar eu cyflwyniadau adrodd blaenorol yn erbyn y canlyniadau a'r safonau drafft fel rhan o'r peilot.

## Sicrhau ansawdd addysg osteopathig

Fel rhan o weithredu'r Canlyniadau diwygiedig a'r Safonau newydd, aethom ati i adolygu adroddiadau blynyddol gan saith darparwr addysg a darparu adborth lle bo angen. Y nod oedd eu cefnogi i barhau i fodloni a gwella eu darpariaeth o addysg osteopathig. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd ymweliad adnewyddu ar gyfer un darparwr ym mis Hydref 2022, gan argymell i'r Cyngor gytuno i adnewyddu ei Gymhwyster Cydnabyddedig.

Yn dilyn cytundeb y Cyngor ym mis Tachwedd 2022, tynnwyd y Cymhwyster Cydnabyddedig ar gyfer Coleg Meddygaeth Osteopathig Llundain (LCOM) yn ôl o ganlyniad i benderfyniad LCOM ei hun i atal ei raglen.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â'n darparwyr addysg i ddatblygu model sicrhau ansawdd mwy eglur a mwy tryloyw sy'n seiliedig ar risg. Y pwrpas oedd cefnogi darparwyr i nodi, monitro a rheoli risg, gan wella ein canlyniadau a'n safonau i wella addysg osteopathig. Mae'r model hwn yn cyd-fynd â'n llawlyfr sicrhau ansawdd, a ddiweddarwyd gennym eleni i ymgorffori'r canlyniadau diwygiedig a'r safonau newydd yn well, gan ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddarparwyr addysg.

Eleni fe wnaethom gyflwyno cyfres o seminarau gyda darparwyr addysg osteopathig i rannu arfer da. Gwahoddwyd Julie Stone i gyflwyno ei dadansoddiad thematig o ganfyddiadau addysg a hyfforddiant ffiniau; archwiliwyd ffyrdd o wella llais y myfyrwyr a buom yn trafod pwysigrwydd cynnwys cleifion mewn addysg osteopathig.

## Dyfodol cofrestru osteopathig

Comisiynwyd Prifysgol Middlesex i gynnal prosiect i fodelu a chynllunio maint y Gofrestr dros y pum mlynedd nesaf. Mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu tuedd gadarnhaol o ran cofrestru myfyrwyr gyda chyfraddau sefydlog ar gyfer cynnydd a graddio. Mae ymchwilwyr yn archwilio methodoleg newydd gan ddefnyddio'r ffynonellau data diweddaraf i sicrhau bod y canlyniadau mor gywir â phosibl.

**Nod strategol 3:** Byddwn yn meithrin cydberthnasau agosach â'r cyhoedd a'r proffesiwn yn seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder.

## Cynnwys cleifion

Comisiynwyd cwmni ymchwil marchnad YouGov i gynnal cam nesaf ein harolwg olrhain canfyddiadau'r cyhoedd a chleifion, a gynhaliwyd gyntaf yn 2014 ac eto yn 2018. Y nod yw rhoi cipolwg i ni ar ddealltwriaeth a chanfyddiadau o osteopatheg a rheoleiddio osteopathig a sut y gallai hyn fod yn newid dros amser.

Gwnaethom barhau â'n prosiect mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gydweithredu ar gyfer Ymarfer Seiliedig ar Werthoedd, gan gyhoeddi ein hadnoddau gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi cleifion i gyfathrebu ag osteopathiaid a chael y gorau o'u hymgynghoriadau. Rydym wedi dechrau ein gwerthusiad o'r adnoddau.

## Gwella a rhannu ein prosesau Addasrwydd i Ymarfer

Roedd ein hymgynghoriadau'n canolbwyntio ar ein Nodyn Ymarfer ar gyfer Holi Tystion a'n Canllawiau a Phrotocol Gwrandawiadau o Bell. Aethom ati i ddiwygio'n Polisi Pryderon Trin Chwythu'r Chwiban gan ei gwneud yn gliriach ac yn haws i'r rhai sy'n codi pryder gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a'n Polisi Gorfodi Adran 32, sy'n amddiffyn y teitl osteopathig rhag camddefnydd troseddol.

Gwahoddwyd osteopathiaid a rhanddeiliaid i fynychu gweminarau gyda'r nod o symleiddio ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Ym mis Mai 2022, eglurwyd sut mae'r Gwasanaeth Cymorth Annibynnol am ddim, sy'n cael ei redeg gan Gymorth i Ddioddefwyr, yn rhoi cymorth i bawb sy'n ymwneud â'n hachosion addasrwydd i ymarfer. Mewn ail weminar ym mis Hydref 2022 gyda'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol buom yn trafod yr hyn sy'n digwydd cyn ac yn ystod gwrandawiadau o bell ac wyneb yn wyneb. Daeth dros 100 o bobl i'n dwy weminar.

Gwnaethom gyhoeddi ein hail fwletin e-bost Mewnwelediadau ar Addasrwydd i Ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys erthygl am y Gwasanaeth Cymorth Annibynnol ac atebion i gwestiynau a godwyd gan osteopathiaid yn ystod gweminarau cynharach.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Eleni, penderfynwyd canolbwyntio ein hymdrechion ar weithredu ein Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-24, gan weithio tuag at sicrhau bod ei nodau'n dylanwadu ar bob cornel o'n gwaith. Fe wnaethom ddiweddaru ein templed asesu effaith ar gydraddoldeb i gynnwys ystyriaethau ar gyfer y Gymraeg ac i sicrhau bod y templed yn hawdd ei ddefnyddio. Dechreuwyd adolygiad hygyrchedd o wefannau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Safonau Ymarfer Osteopathig ac adolygwyd yr iaith yn ymwneud â'r gofyniad 'iechyd da' yn ein deddfwriaeth, ar gyfer y rhai a allai fod angen datgan cyflyrau iechyd.

Cynhaliwyd ein Peilot Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, cyfres o grwpiau ffocws ac arolwg i gasglu barn gan osteopathiaid am y cwestiynau a'r negeseuon rydym yn gobeithio eu defnyddio wrth gasglu gwybodaeth am amrywiaeth yn y proffesiwn a'i fonitro. Cyhoeddwyd ein canfyddiadau a'n cynnydd yn erbyn pob un o'r pedwar argymhelliad.

**Nod strategol 4:** Byddwn yn esiampl o reoleiddio gofal iechyd modern – hygyrch, effeithiol, arloesol, ystwyth, cymesur ac adlewyrchol.

## Recriwtio anweithredol

Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ar draws y pedair gwlad o fewn ein strwythur llywodraethu, fe wnaethom recriwtio aelod newydd o Gyngor Gogledd Iwerddon yn dilyn diwedd tymor Joan Martin. Ymunodd Patricia McClure â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 fel Aelod Lleyg a chynrychiolydd ar gyfer Gogledd Iwerddon tan 31 Mawrth 2026. Fe wnaethom ailbenodi aelodau presennol y Cyngor, Sarah Botterill a Denis Shaughnessy. Penodwyd Sue Ware hefyd yn Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol o 1 Ebrill 2022 am gyfnod o bedair blynedd.

Ym mis Mawrth 2023 penodwyd Laura Turner yn Gydymaith newydd i'r Cyngor, yn dilyn diwedd tymor un o'n Cymdeithion Cyngor cyntaf, Shireen Ismail. Mae rhaglen Cymdeithion y Cyngor yn caniatáu i ddau osteopath gysgodi'r Cyngor a mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd i ddatblygu eu sgiliau llywodraethu ac arwain.

## Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad gweithredol

Roeddem yn falch bod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith yr holl reoleiddwyr proffesiynol gofal iechyd yn flynyddol, wedi adrodd bod y Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi bodloni ei holl safonau rheoleiddio da unwaith eto, am y ddeuddegfed flwyddyn yn olynol. Ni yw'r unig reoleiddiwr proffesiynol gofal iechyd o hyd sydd â record o'r fath ac rydym yn falch o'n tîm a'n cydweithwyr anweithredol am ein cefnogi i gyflawni hyn.

Yn ystod 2022-23 buom yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau craidd yn gyson, gan gynnwys rheoli ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a chynnal ein Cofrestr.

Rydym yn ymateb i bryderon a godwyd gyda ni am ymarfer anghyfreithlon posibl. Nid yw pob pryder a godwyd gyda ni yn gofyn am weithredu, ond yn 2022-23 fe wnaethom anfon 14 llythyr 'rhoi'r gorau iddi' a datrys 38 achos. Eleni fe wnaethom erlyn un unigolyn yn llwyddiannus am ddisgrifio'i hun yn anghyfreithlon fel osteopath gan ei wahardd o'r Gofrestr.

Yn 2022-23, derbyniwyd 59 o bryderon. Roedd 37 o'r rhain wedi'u cyflwyno'n ffurfiol.

Yn ystod y flwyddyn, daeth Pwyllgor Ymchwilio'r Cyngor i benderfyniad terfynol mewn 32 achos. O'r rhain, cyfeiriwyd 16 at wrandawiad llawn o'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; mewn tri achos rhoddwyd cyngor i'r osteopath gan y Pwyllgor Ymchwilio ac yn y 13 achos oedd yn weddill, penderfynwyd nad oedd achos i'w ateb ac ni chymerwyd camau pellach.

Dros y flwyddyn, cwblhaodd y Pwyllgor 17 achos; mewn 12 o'r achosion hynny, rhoddwyd cosb i'r osteopath (gweler y tabl).

| Cosbau a roddwyd mewn achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2022-23 | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Rhybudd | 6 |
| Amodau ymarfer | 1 |
| Atal | 3 |
| Dileu | 2 |
| **Cyfanswm** | **12** |

## Ynglŷn â'r Gofrestr


Ar 31 Mawrth 2023, roedd 5,437 o osteopathiaid wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol.

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

RWY'N GOFRESTREDIG

**5,437**
osteopathiaid ar y Gofrestr


| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Gwrywaidd | 2,628 (48%) |
| Benywaidd | 2,809 (52%) |
| **Cyfanswm** | **5,437 (100%)** |




Hyfforddwyd y 248 osteopath newydd neu'r rhai oedd yn dychwelyd i'r Gofrestr yn y darparwyr addysg canlynol:

| Lle Hyfforddiant | Nifer yn ymuno â'r Gofrestr |
|---|---|
| Coleg Meddygaeth Osteopathig Prydain | 25 |
| Coleg yr Osteopathiaid | 25 |
| Ysgol Ewropeaidd Osteopatheg | 44 |
| Prifysgol Leeds Beckett | 0 |
| Coleg Meddygaeth Osteopathig Llundain | 0 |
| Ysgol Osteopatheg Llundain | 10 |
| Prifysgol Oxford Brookes | 1 |
| Coleg Technoleg Gogledd Ddwyrain Surrey | 9 |
| Prifysgol Abertawe | 27 |
| Prifysgol Sant Marc a Sant Ioan (Marjon) | 13 |
| Coleg Prifysgol Osteopatheg | 88 |
| Tramor | 6 |
| **Cyfanswm** | **248** |

| Lleoliad daearyddol unigolion cofrestredig | Nifer |
|---|---|
| Lloegr | 4,651 |
| Gogledd Iwerddon | 30 |
| Yr Alban | 164 |
| Cymru | 157 |
| Gweddill y byd | 435 |
| **Cyfanswm** | **5,437** |



**4,651** Lloegr

**164** Yr Alban

**157** Cymru

**30** Gogledd Iwerddon

**435** Gweddill y byd

| Math o asesiad | Nifer |
|---|---|
| Asesiad cymhwyster y tu allan i'r DU | 15 |
| Tystiolaeth bellach o asesu ymarfer | 9 |
| Asesiad o berfformiad clinigol | 6 |
| Cyfweliad dychwelyd i ymarfer | 20 |
| **Cyfanswm** | **50** |

Cynhaliodd ein tîm o Aseswyr Cofrestru, pob un ohonynt yn osteopathiaid cymwys, gyfanswm o 50 o asesiadau cofrestru yn 2022-23, mae hyn yn cymharu â 31 o asesiadau cofrestru a gynhaliwyd yn y flwyddyn flaenorol.

# 5 Ein gwaith ar draws pedair gwlad y DU yn 2022-23

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn rheoleiddio ymarfer osteopatheg yn y DU ac i'n helpu i barhau i fod yn rheoleiddiwr effeithiol rydym yn ymgysylltu â phedair gwlad y DU.

## Lloegr

Eleni rydym wedi parhau i gysylltu'n agos â Suzanne Rastrick, Prif Swyddog Proffesiynau Perthynol i Iechyd (Lloegr) a'i Dirprwy Beverley Harden, i drafod rôl osteopathiaid fel Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd o fewn y GIG o safbwynt rheoleiddiol.

Mae hyn wedi cynnwys y berthynas rhwng fframweithiau cymwyseddau presennol y GIG a'n hadolygiad o Ganlyniadau Graddedigion a Safonau Addysg a Hyfforddiant. Rydym yn ddiolchgar i Beverley a'i thîm am eu cyfraniad.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch y rhaglen ddiwygio ddeddfwriaethol ac rydym yn croesawu cyhoeddi Gorchymyn Cymdeithion Anesthesia a Chymdeithion Meddygon Cyswllt yn gynnar yn 2023.

## Yr Alban

Ym mis Hydref 2022 aethom i Gynhadledd Reoleiddio'r Alban a gynhaliwyd yng Nghaeredin lle buom yn cadeirio trafodaeth banel ar gynnwys llais y claf yng ngwaith rheoleiddwyr. Fe wnaethom gymryd rhan mewn trafodaeth banel arall ar ddiwygio rheoleiddiol hefyd.

Roeddem yn falch iawn o fynychu cyfarfod o Gymdeithas Osteopathig yr Alban yn Glasgow fel rhan o gorff proffesiynol sioe deithiol y Sefydliad Osteopatheg, a fynychwyd gan Gadeirydd y Cyngor, Dr Bill Gunnyeon, yn ogystal ag aelodau o staff y Cyngor.

## Cymru

Eleni fe wnaethom barhau i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i Gynllun yr Iaith Gymraeg unwaith eto gan baratoi a chyflwyno Adroddiad Blynyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg i Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi bod yn ystyried effaith y Safonau Cymraeg newydd yr ydym wedi'u hadolygu yn y flwyddyn gyfredol hefyd cyn eu gweithredu yn y flwyddyn fusnes nesaf.

Roeddem yn falch iawn o fynychu cyfarfod gydag osteopathiaid o Gymru yng Nghaerdydd fel rhan o gorff proffesiynol sioe deithiol y Sefydliad Osteopatheg.

## Gogledd Iwerddon

Fe wnaethom benodi aelod newydd o'r Cyngor o Ogledd Iwerddon, Dr Patricia McClure. Croesawyd Patricia i'r Cyngor ac rydym yn edrych ymlaen at ddysgu o'i phrofiad.

Cynhaliwyd cyfarfod gydag osteopathiaid yn Belfast yn ystod 2022 lle bu modd i ni wrando ar y materion sy'n bwysig i osteopathiaid yng Ngogledd Iwerddon. Mynychwyd y cyfarfod gan Dr Patricia McClure yn ogystal ag aelodau o staff y GOsC .

# 6 Edrych i'r dyfodol: gweithgareddau allweddol ar gyfer 2023-24

Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2023–24 yn cyflwyno rhaglen waith uchelgeisiol sy'n cyfateb i bedwar nod strategol y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein cyfrifoldebau statudol craidd, gan ddal ati i ddangos ein dull arloesol o reoleiddio.

Mae ein gweithgareddau allweddol ar gyfer 2023-24 fel y nodir yn ein Cynllun Busnes wedi'u cynnwys isod o dan bob nod strategol.

## Nod strategol 1:

**Byddwn yn cefnogi'r proffesiwn osteopathig i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a fydd yn diogelu cleifion a'r cyhoedd yng nghyd-destun newidiadau yn nhirwedd ddynamig gofal iechyd.**

- Comisiynu gwaith i ddeall anghenion unigolion cofrestredig mewn perthynas ag iechyd a lles i gefnogi ymarfer proffesiynol da.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â ffiniau.
- Cydweithio ac ymgysylltu â grwpiau osteopathig rhanbarthol a lleol i ddeall eu hanghenion.

## Nod strategol 2:

**Byddwn yn datblygu ein sicrwydd o addysg osteopathig i gynhyrchu graddedigion o ansawdd uchel sy'n barod i ymarfer.**

- Archwilio gweithrediad egwyddorion cydsyniad yn yr amgylchedd myfyrwyr.
- Ystyried ymestyn y contract darparwr gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd presennol a'r cynllun er mwyn i dendr llawn ddigwydd yn y flwyddyn fusnes nesaf.
- Darparu cymorth pellach i ddarparwyr addysg wrth weithredu a gwerthuso Deilliannau Graddedigion a Safonau Addysg a Hyfforddiant yn effeithiol.

## Nod strategol 3:

**Byddwn yn meithrin perthynas agosach â'r cyhoedd a'r proffesiwn yn seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder.**

- Ymgymryd ag arolwg canfyddiadau unigolion cofrestredig a rhanddeiliaid.
- Ymgynghori ar y Polisi Cyhoeddi Addasrwydd i Ymarfer a chyhoeddi diwygiadau iddo.
- Ymgynghori a chyhoeddi diwygiadau i'r Canllawiau ar Osod Gorchmynion Atal Dros Dro a'r Nodyn Ymarfer Ymgymeriadau.

## Nod strategol 4:

**Byddwn yn esiampl o reoleiddio gofal iechyd modern – hygyrch, effeithiol, arloesol, ystwyth, cymesur ac adlewyrchol.**

- Datblygu a chyhoeddi Cynllun Strategol newydd sy'n cael ei lywio gan adborth rhanddeiliaid.
- Ymgymryd â llawer o recriwtio anweithredol.
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gweithredu Safonau newydd y Gymraeg a dechrau gweithredu'r camau a nodwyd.

## Datblygu ein Cynllun Strategol newydd

Eleni fe wnaeth y Cyngor, staff y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac aelodau eraill o'n strwythur llywodraethu fyfyrio ar ein perfformiad fel rheoleiddiwr a'i drafod. Mae'r ystyriaeth hon yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu ein Cynllun Strategol nesaf, a fydd yn ein harwain hyd at 2030. Mae'r dull yr ydym wedi bod yn ei ddefnyddio yn adlewyrchu'r myfyrio mae osteopathiaid yn ei wneud fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus – rydym wedi nodi cyfleoedd i ddysgu o'n gweithredoedd ac rydym yn gwneud cynlluniau i wella ein perfformiad.

Ym mis Awst 2022 cyhoeddwyd blog gan ein Prif Weithredwr Matthew Redford yn gwahodd adborth a syniadau gan y proffesiwn i lywio ein ffordd o feddwl. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei lansio yn 2023 cyn cyhoeddi'r strategaeth yn 2024. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at glywed gan osteopathiaid, cleifion a grwpiau allweddol eraill yn ystod y broses hon.

# 7 Ein llywodraethiant, rheolaeth a risgiau

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys Cyngor, pwyllgorau a thîm gweithredol bach. Nododd y Cyngor brif risgiau mewn nifer o feysydd yn 2022-23 ynghyd â chamau lliniaru allweddol.

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys 10 aelod – pump o leygwyr a phump cofrestredig. Cefnogir y Cyngor yn ei waith llywodraethu gan bron i 40 aelod lleyg a chofrestredig o'n pwyllgorau statudol ac anstatudol, yn ogystal ag aseswyr cofrestru, aseswyr cyfreithiol, cynghorwyr meddygol ac eraill. Mae aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr elusen hefyd, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 a deddfwriaeth arall.

Mae bywgraffiadau byr aelodau presennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn: **osteopathy.org.uk/council**

## Pwyllgorau'r Cyngor

Cynorthwyir y Cyngor i gyflawni ei amcanion gan nifer o bwyllgorau statudol ac anstatudol. Mae gan y Cyngor dri phwyllgor: y Pwyllgor Polisi ac Addysg; y Pwyllgor Archwilio; a'r Pwyllgor Pobl.

Mae pob Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor ac aelodau allanol a benodir. Penodir aelodau allanol gan y Cyngor o dan arweiniad y Pwyllgor Pobl.

Mae gwybodaeth am ein Pwyllgorau, gan gynnwys aelodaeth pob un, ar gael ar ein gwefan yn: **osteopathy.org.uk/committees**

**Presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd Cyngor a phwyllgor**

Mae aelodau unigol yn mynychu gweithgorau, cyfarfodydd ad hoc ac arfarniadau drwy gydol y flwyddyn hefyd.

| Enw | Cyngor | Archwilio | PPA | PP |
|---|---|---|---|---|
| Bill Gunnyeon | 5/5 | | | |
| Daniel Bailey | 5/5 | | 4/4 | |
| Sarah Botterill | 5/5 | | 3/4 | 5/5 |
| Deborah Bowman | 3/5 | | 3/4 | |
| Caroline Guy | 5/5 | | | 5/5 |
| Elizabeth Elander | 5/5 | | 4/4 | |
| Simeon London | 4/5 | | | 4/5 |
| Patricia McClure[1] | 4/4 | | 2/3 | |
| Denis Shaughnessy | 5/5 | 3/4 | | 4/5 |
| Deborah Smith | 5/5 | 3/4 | | |

1 Dechreuodd y penodiad ar 1 Gorffennaf 2022

## Pwyllgorau addasrwydd i ymarfer annibynnol

Mae tri phwyllgor sy'n cefnogi swyddogaethau addasrwydd i ymarfer y Cyngor:

- Y Pwyllgor Ymchwilio
- Y Pwyllgor Iechyd
- Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol.

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu'r pwyllgorau hyn, ond mae eu penderfyniadau yn annibynnol ar y Cyngor.

Mae'r pwyllgorau'n gweithredu fel paneli, sydd â thri neu bump aelod fel arfer i ystyried pryderon ac achosion a gyfeiriwyd.

Caiff aelodau'r pwyllgor eu penodi gan y Cyngor yn dilyn proses recriwtio gyhoeddus ac o dan arweiniad y Pwyllgor Pobl.

Mae gwybodaeth am y Pwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer annibynnol, gan gynnwys aelodaeth pob un, ar gael ar ein gwefan.
**osteopathy.org.uk/committees**

## Tîm Gweithredol y Cyngor

Caiff gweithrediadau'r Cyngor eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr, y Cofrestrydd a'r Uwch Dîm Rheoli a staff eraill.

Mae Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor yn cynnwys:

- Matthew Redford, Prif Weithredwr a Chofrestrydd
- Fiona Browne, Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu
- Sheleen McCormack, Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer a Chynghorydd Cyffredinol

## Cynghorwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

**Archwilwyr**
Haysmacintyre LLP
10 Queen Street Place
Llundain EC4R 1AG

**Bancwyr**
Royal Bank of Scotland
62-63 Threadneedle Street
Llundain EC2R 8LA

## Ein risgiau

Cododd y prif risgiau a nodwyd gan y Cyngor yn 2022-23 (ynghyd â chamau lliniaru allweddol) yn y meysydd canlynol:

| Maes risg | Camau lliniaru |
|---|---|
| Uchelgeisiau strategol sy'n cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd | Monitro incwm a gwariant yn agos gan alluogi'r Cyngor i ystyried blaenoriaethau strategol. |
| Seilwaith TG nad yw'n gallu cefnogi gweithgarwch y Cyngor a/neu raglen drawsnewid yn y dyfodol | Archwiliadau TG annibynnol i asesu dull o ymdrin â diogelwch TG. Bwriad i uwchraddio cronfa ddata unigolion cofrestredig y Cyngor gydag integreiddio gwell i'r wefan. |
| Nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer | Mecanweithiau adolygu sicrhau ansawdd cynhwysfawr a chyson ochr yn ochr â rhaglen barhaus o hyfforddiant ar gyfer aelodau panel. |

**Uchelgeisiau strategol sy'n cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd:**

Rydym yn ymwybodol y byddai ein huchelgeisiau strategol fel rheoleiddiwr yn cael eu tanseilio pe na bai gennym ddigon o adnoddau i gyflawni ein cynlluniau, ac felly mae'r pwysau ar gynaliadwyedd yn parhau'n bryder. Rydym yn bwriadu cadw golwg ar gyfansoddiad y Gofrestr i sicrhau ein bod yn ymwybodol os oes unrhyw newid sylweddol yn digwydd. Rydym yn sicrhau bod gennym ddull strwythuredig sy'n canolbwyntio ar risg o reoli ein cronfeydd wrth gefn a'n portffolio buddsoddi.

Ein camau lliniaru yw parhau i ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor a sicrhau ein bod yn monitro data incwm a gwariant yn agos.

**Nid yw'r seilwaith TG yn gallu cefnogi gweithgarwch y Cyngor a/neu raglen drawsnewid yn y dyfodol:**

Mae'r risg nesaf yn ymwneud â'n seilwaith TG a'r risg nad yw'n darparu'r diogelwch sydd ei angen arnom neu fod systemau etifeddiaeth yn ein hatal rhag ymgymryd â'n gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol.

Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, rydym wedi cynnal archwiliadau TG gan gynnwys o amgylch ein seilwaith diogelwch a byddwn yn datblygu cynlluniau i uwchraddio ein cronfa ddata gofrestru. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y camau gweithredu yn y maes hwn o'n gwaith.

**Nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer:**

Mae'r drydedd risg yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer. Mae gan bob rheoleiddiwr gofal iechyd risgiau sy'n gysylltiedig â nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer a'r potensial am apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir. Mae risgiau o ran effeithlonrwydd ac amseroldeb yr achosion sy'n cael eu cwblhau, sy'n gysylltiedig ag un o'n targedau allweddol sy'n cael ei fonitro gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er bod y risgiau hyn yn ariannol yn bennaf. Er ein bod yn falch bod ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer yn cael eu rheoli mewn modd cost-effeithiol, amserol a chymesur, mae ein deddfwriaeth hen ffasiwn yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn ochrol a bod yn arloesol mewn diwygiadau addasrwydd i ymarfer y gellir eu gweithredu heb droi at newidiadau deddfwriaethol.

# 8 Adroddiad ariannol a chyfrifon ar gyfer 2022-23

Mae'r adroddiad ariannol ar gyfer y flwyddyn 2022-23 yn adlewyrchu addasiad i effeithiau'r pandemig.

## Cyflwyniad

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 gwelwyd yr economi, tanwydd a phrinder bwyd byd-eang yn gwaethygu'r chwyddiant ar ôl y pandemig a oedd eisoes wedi codi i'r lefelau uchaf ers degawdau.

Ar ôl defnyddio'r flwyddyn flaenorol i addasu i fodel rhagweithiol, gan gydnabod y 'norm newydd' o newid cyson, roeddem yn rhagweithiol wrth ddefnyddio adnoddau'n strategol lle bo angen.

Mae'r sefyllfa ariannol fel yr oeddem wedi rhagweld y byddai, gyda'r golled ddisgwyliedig o £83,459 ar fuddsoddiadau'n cael effaith negyddol ar yr elw net.

Ar gyfer y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, rydym yn edrych yn rheolaidd ar ein dull o reoleiddio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ychwanegu gwerth. Mae'r cwestiynau rydym yn eu gofyn yn cynnwys:

- Sut allwn ni wneud ein gwaith yn fwy cost-effeithiol a symlach?
- Sut allwn ni sicrhau ein bod ni'n gwrando, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu'n effeithiol mewn cyfnod lle mae rhyngweithiadau wyneb yn wyneb wedi lleihau?
- Sut ydym yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol craidd mewn modd pwyllog a phriodol?

Ddwy flynedd yn ôl fe wnaethom gyflwyno ein Cynnig Gwerth, lle rydym yn disgrifio sut mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth. Rydym wedi nodi yn yr adroddiad hwn lle mae ein gwaith yn 2022-23 yn cyd-fynd â'r dull hwn.

## Y Cynnig Gwerth

Mynegir ein dull o reoleiddio trwy ein nodau yng Nghynllun Strategol 2019-24 a'n Cynlluniau Busnes sylfaenol yr ydym yn eu datblygu bob blwyddyn.

Mae'r gweithgareddau a nodir yn y cynlluniau busnes blynyddol wedi'u cynllunio'n benodol i:

- rymuso a chefnogi ein hunigolion cofrestredig sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector annibynnol gan ddarparu gofal 'ymarferol' i gleifion
- sicrhau ein bod ni'n cydweithio â'n partneriaid ar draws y sector rheoleiddio
- cryfhau ein bwriad i roi'r claf wrth galon yr hyn a wnawn
- sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'n gwaith
- cyflawni ein swyddogaeth statudol graidd

## Yr egwyddorion sy'n sail i'r Cynnig Gwerth

Mae'r Cynnig Gwerth yn seiliedig ar set o werthoedd craidd sy'n cefnogi sut rydym yn gweithio ac yn llywio datblygiad ein cynlluniau a'n cyllidebau busnes.

Yr egwyddorion hyn yw:

- **Cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd:** byddwn yn sicrhau bod lefelau priodol o gyllid ar gael fel y gellir cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd.
- **Clywed llais y claf:** byddwn yn dyrannu adnoddau fel bod llais y claf yn llywio ein gwaith presennol ac yn y dyfodol.
- **Golwg ragofalus:** byddwn yn sicrhau ein bod yn nodi ac yn ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi rheoleiddio rhagofalus ac sy'n berthnasol ac yn briodol ar gyfer ein cyd-destun.

- **Gwelliant parhaus:** byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i ysgogi gwelliant parhaus fel y gallwn fod yn sefydliad gwell yfory nag yr ydym heddiw.
- **Digidol yn gyntaf:** byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu dull digidol yn gyntaf o weithredu er mwyn symleiddio'r gweithgareddau rydym yn eu cyflawni.
- **Cost-effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd:** rydym yn sicrhau ein bod yn ofalus lle mae ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i fod yn gost-effeithlon ac yn gost-effeithiol.

Rydym yn ystyried bod gan ein cynnig gwerth dair elfen:

1. **Sicrhau diogelwch y cyhoedd**
2. **Datblygu'r proffesiwn**
3. **Darparu llywodraethu cadarn**

**Elfen 1: Sicrhau diogelwch y cyhoedd**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Mae ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn cynnwys:

- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant
- datblygu, pennu a chynnal Safonau Ymarfer Osteopathig
- cynnal cyfanrwydd y Gofrestr Statudol o osteopathiaid
- rheoli pryderon drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer

Mae diogelu'r cyhoedd yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu gan y gweithgareddau o dan yr elfen hon sy'n cwmpasu pob agwedd ar ein busnes.

Ym mlwyddyn ariannol 2022-23, fe wnaethom wario £1.58m ar ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Roedd hyn yn cyfateb i 54% o gyfanswm ein cyllideb (2022-60%) ac mae'n golygu, am bob ffi cofrestru o £570 a dderbyniwn, ein bod yn gwario £304 o hynny ar sicrhau diogelwch y cyhoedd (2022-£340).

**Elfen 2: Datblygu'r proffesiwn**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn datblygu'r proffesiwn ac yn darparu cymorth priodol iddo allu cynnal gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Mae ein gweithgareddau i ddatblygu'r proffesiwn yn cynnwys:

- cefnogi'r proffesiwn i ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i gynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth
- cyfrannu arian i'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig
- ariannu tanysgrifiad ledled y proffesiwn ar gyfer yr International Journal of Osteopathic Medicine (IJOM) a chyfnodolion ymchwil eraill fel The Lancet a Manual Therapy
- amrywiaeth o weithgareddau cyfathrebu gyda phwyslais newydd ar wrando ac ymgysylltu

Ym mlwyddyn ariannol 2022-23, gwariwyd £0.69m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn datblygu ac yn cefnogi'r proffesiwn (2022-£0.58m).

Roedd hyn yn cyfateb i 23% o gyfanswm ein cyllideb (2022-21%) ac mae'n golygu, am bob ffi cofrestru o £570 a dderbyniwn, ein bod yn gwario £133 o hynny ar ddatblygu'r proffesiwn. (2022-£120).

**Elfen 3: Darparu llywodraethu cadarn**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd darparu llywodraethu cadarn. Dylai llywodraethu da sicrhau bod sefydliad yn parhau'n sefydlog, yn gynhyrchiol a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae ein gweithgareddau i gyflawni llywodraethu cadarn yn cynnwys:

- penodi, hyfforddi a chynnal strwythur llywodraethu sy'n cynnwys y Cyngor, y Pwyllgor Polisi ac Addysg, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pobl
- cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus a sicrhau bod papurau'r cyfarfod ar gael ymlaen llaw
- buddsoddi yn ein seilwaith TG a ffyrdd digidol newydd o weithio
- sicrhau y cynhelir archwiliadau ac adolygiadau annibynnol o'n gwaith

Yn y flwyddyn ariannol 2022-23, gwariwyd £0.69m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn cyflawni llywodraethu cadarn (2022- £0.53m).

Roedd hyn yn cyfateb i 23% o gyfanswm ein cyllideb (2022-19%) ac mae'n golygu, am bob ffi cofrestru o £570 a dderbyniwn, ein bod yn gwario £133 o hynny ar gyflawni llywodraethu cadarn (2022-£110).

**Tabl yn dangos Cynnig Gwerth, gwariant yn y flwyddyn, % o gyfanswm y gwariant a chyfran o'r ffi cofrestru o £570**


| Elfennau Cynnig Gwerth | Gwariant yn y flwyddyn[2] £ | Canran o gyfanswm y gwariant % | Cyfran y ffi cofrestru o £570 a ddefnyddiwyd £ |
|---|---|---|---|
| **Sicrhau diogelwch y cyhoedd** | 1.58m (2023)<br>1.65m (2022) | 54% (2023)<br>60% (2022) | 304 (2023)<br>340 (2022) |
| **Datblygu'r proffesiwn** | 0.69m (2023)<br>0.58m (2022) | 23% (2023)<br>21% (2022) | 133 (2023)<br>120 (2022) |
| **Darparu llywodraethu cadarn[3]** | 0.69m (2023)<br>0.53m (2022) | 23% (2023)<br>19% (2022) | 133 (2023)<br>110 (2022) |

2 Ac eithrio colledion a/neu daliadau buddsoddi


3 Sylwch nad yw'r ffigurau a gynhwysir yn y cynnig gwerth ar gyfer Llywodraethu yn ymwneud â'r nodiadau ar Lywodraethu yn y nodiadau ar y cyfrifon.


**Beth mae'r ffi cofrestru'n ei ariannu drwy'r cynnig gwerth?**
Mae'r prif ffi cofrestru o £570 yn cael ei dorri i lawr i ddangos maint y gwariant ar draws cynnig gwerth y Cyngor yn 2022-23.

**Gwariant yn y flwyddyn £m**





**Cyfran o'r ffi cofrestru £570 a ddefnyddiwyd £**






- Sicrhau diogelwch y cyhoedd **54%**
- Datblygu'r proffesiwn **23%**
- Darparu llywodraethu cadarn[3] **23%**




- Sicrhau diogelwch y cyhoedd **60%**
- Datblygu'r proffesiwn **21%**
- Darparu llywodraethu cadarn[3] **19%**

### Incwm a gwariant

Cyflwynir y cyfrifon, a gyflwynir yn fanylch ar y tudalennau canlynol, yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (Safon Adrodd Ariannol 102).

Daeth y Cyngor â'r flwyddyn ariannol i ben gyda diffyg o £46,154 oherwydd colled buddsoddiad o £83,459.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm yr incwm oedd £2,996,818. Roedd incwm ffioedd cofrestru'n cyfrif am dros 99% o gyfanswm yr incwm. Mae ffioedd cofrestru wedi cael eu cynnal ar eu lefel bresennol unwaith eto – y nawfed flwyddyn yn olynol, sy'n cynrychioli gostyngiad mewn termau real. Daeth gweddill yr incwm o feysydd fel asesiadau cofrestru, bancio a llog buddsoddi.

Nid oes gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol unrhyw weithgaredd codi arian sydd angen ei ddatgelu o dan Adran 162A o Ddeddf Elusennau 2011.

Y gwariant ar gyfer y flwyddyn oedd £2,965,847 ar ôl gwariant dynodedig. Yn y flwyddyn adrodd amrywiodd ein lefelau gwariant o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf gan y gallai rhai gweithgareddau barhau i gael eu cynnal o bell, a gwelsom ddychwelyd i rywfaint o weithgaredd wyneb yn wyneb mewn meysydd eraill.

### Costau rheoleiddio a datblygu

Mae costau gweithgareddau rheoleiddio'r Cyngor yn perthyn i'r pedwar prif faes canlynol (sylwer bod costau staffio'n cael eu cynnwys ym mhob un o'r rhain):

- **Addysg a safonau proffesiynol**

  Mae sicrhau ansawdd darparwyr addysg osteopathig yn parhau i fod yn elfen sylfaenol o'r gwaith a wneir yn y maes hwn, ynghyd â datblygu a gweithredu'r cynllun datblygiad proffesiynol parhaus. Cafwyd costau o £437,773 yn y flwyddyn.

- **Cofrestru**

  Mae costau cofrestru wedi cynyddu gyda'r gwariant o'r flwyddyn flaenorol, oherwydd effaith chwyddiant a'r argyfwng costau byw. Cyfanswm y costau heblaw staffio oedd £13,915 gan gynnwys costau asesu cofrestru a gwariant cysylltiedig ar gyfer hyfforddi ac arfarnu aseswyr cofrestru.

- **Cyfreithiol ac addasrwydd i ymarfer**

  Cost cynnal ymchwiliadau a chynnal gwrandawiadau yw'r elfen fwyaf heblaw staffio o wariant y Cyngor o hyd.

  Yn 2022-23 cynyddodd cyfanswm y gost uniongyrchol yn y maes hwn i £830,870 o £816,740 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys costau'r Pwyllgor Ymchwilio, sef £46,751 gyda'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn gwario £322,845.

- **Cyfathrebu, ymchwil a datblygu**

  Roedd costau gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu'n uwch eleni sef £420,890 o gymharu â £318,856 yn y flwyddyn flaenorol. Mae datblygu, cynnal a chadw a lletya gwefannau, sef £76,501, yn faes gwariant allweddol yn y maes hwn. Mae'r gost gyffredinol yn cynnwys darparu mynediad am ddim i gyfnodolion ymchwil ar gyfer osteopathiaid hefyd a dyraniad i gostau seilwaith y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig a oedd tua £64,000.

### Costau gweinyddol a gorbenion

Meysydd cost eraill y Cyngor yw'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu seilwaith y sefydliad, gan gynnwys costau adeiladu a TG, a gweinyddu Cyngor a phwyllgorau y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, sy'n swyddogaethau hanfodol ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol.

- **Llywodraethu**

  Mae costau llywodraethu'n ymwneud â lwfansau aelodau'r Cyngor, treuliau pwyllgorau, arfarniadau a recriwtio aelodau newydd. Yn 2022-23, cynyddodd costau llywodraethu 14% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef £431,648 o gymharu â £377,407. O fewn costau llywodraethu roedd yr ardoll ar bob rheoleiddiwr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer costau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol; talodd y Cyngor ardoll o £14,615.

- **Seilwaith TG**


  Eleni gwelwyd ffocws ar sicrhau bod seilwaith TG y Cyngor yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Mae'r gwariant ar TG yn adlewyrchu cost Cofrestr y Cyngor, y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid a gwasanaethau swyddfa eraill.

- **Gweinyddu a sefydliad**

  Mae'r gwariant yn y maes hwn yn adlewyrchu costau eiddo, gweinyddu swyddfa gyffredinol a theithio. Mae'n cynnwys ffioedd archwilio, llog banc a thaliadau buddsoddi a dibrisiant hefyd. Eleni mae colled sylweddol o ran buddsoddiad y rhoddir cyfrif amdano yn yr adran hon.

**Beth mae'r ffi cofrestru'n ei ariannu?**

Rhoddir dadansoddiad o'r prif ffi cofrestru o £570 isod i ddangos faint o wariant oedd ar bob un o swyddogaethau'r Cyngor yn 2022-23:




- **Gweinyddu a sefydliad (£71.38)**
  Yn cynnwys adeilad, gweinyddu swyddfa a ffioedd archwilio.
- **Cyfathrebu, ymchwil a datblygu (£80.89)**
  Yn cynnwys gwaith cyfathrebu'r Cyngor a mynediad am ddim i gyfnodolion ymchwil i osteopathiaid drwy'r o zone.
- **Safonau addysg a phroffesiynol (£84.13)**
  Sicrhau ansawdd darparwyr addysgol osteopathig; datblygu'r Cynllun DPP newydd, ac adolygu a diweddaru'r Safonau Ymarfer Osteopathig.
- **Addasrwydd i ymarfer, yn cynnwys cyfreithiol (£159.68)**
  Cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau; costau pwyllgorau a chyfreithiol.
- **Llywodraethu (£82.96)**
  Rhedeg y Cyngor a'r Pwyllgorau, sydd hefyd yn cynnwys ardoll o £13,410 i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol.
- **Seilwaith TG (£55.84)**
  TG ar gyfer y Gofrestr, system reoli cysylltiadau cwsmeriaid a gwasanaethhau swyddfa eraill.
- **Cofrestru (£35.12)**
  Cynnal y Gofrestr a chostau asesu cofrestru.

## Cronfeydd wrth gefn a buddsoddiadau

**Polisi Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn fel rhan o arfer busnes da i sicrhau bod ganddo arian ar gael pe bai digwyddiadau annisgwyl yn codi, megis cynnydd mewn gwariant neu ostyngiad mewn incwm. Mae'r Cyngor yn adolygu sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn yn flynyddol. Nodir y sefyllfa wrth gefn ar gyfer 2022-23 fel a ganlyn.

Mae'r fantolen yn dangos cyfanswm o £2,858,764 wrth gefn. Mae pob un o gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn anghyfyngedig.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y meysydd lle mae'n teimlo mai dyma'r risg ariannol fwyaf a'r rhain yw:

- mwy o bryderon
- adolygiadau barnwrol neu apeliadau cyfreithiol
- colledion na ellir eu hyswirio e.e. dirwyon diogelu data
- cynnydd annisgwyl mewn gweithgarwch sicrhau ansawdd

Wedi ystyried y risgiau hyn a'r effaith ariannol bosibl pe baent yn cael eu gwireddu, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddoeth dal cronfeydd wrth gefn o fewn amrediad targed o £350,000-£700,000

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23, mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn sy'n cyfateb i £1,046,090, a gyfrifwyd fel a ganlyn:

| | £ |
|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn a gaiff eu dal | 2,858,764 |
| Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig | – |
| Cronfeydd wrth gefn dynodedig | (222,093) |
| Asedau sefydlog gweithredol | (1,590,581) |
| Cronfeydd wrth gefn yn weddill | 1,046,090 |

Asedau sefydlog gweithredol yw cyfanswm asedau diriaethol ac anniriaethol y Cyngor.

Mae cronfeydd wrth gefn y tu allan i'r amrediad targed ar hyn o bryd. Bydd yr ymddiriedolwyr yn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a sut y gellir eu defnyddio ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad y dylid cyflwyno'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

**Strategaeth fuddsoddi**

Mae buddsoddiadau'n cael eu prisio ar sail gwerth y farchnad ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (y Fantolen). Mae enillion a cholledion a wireddwyd a nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau'n cael eu credydu neu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr.

Mae gan y Cyngor fuddsoddiad o £1,167,992 mewn portffolio amrywiol, risg canolig. Rheolir y gronfa gan Brewin Dolphin ac fe'i nodir ar y fantolen fel ased nad yw'n gyfredol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol. Yn ôl Deddf Osteopathiaid 1993 mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyngor wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU (Safonau Cyfrifeg y DU a chyfreithiau perthnasol).


Ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai ei fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ac elw neu golled y Cyngor am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson
- cydymffurfio â'r dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau mewn busnes

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y Cyngor a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Cyngor a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Osteopathiaid 1993 a Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am ddiogelu asedau'r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol ac mae'n cymryd camau rhesymol i asesu a rheoli risg, ymgymryd â gweithgareddau archwilio anariannol o waith y Cyngor, a sicrhau y caiff twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall ei atal a'i ganfod. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn aelod o'r Cyngor ac yn gallu adrodd ar faterion perthnasol ym mhob cyfarfod o'r Cyngor.

Cymeradwywyd gan y Cyngor ar 20 Gorffennaf 2023 a'i lofnodi ar eu rhan gan:



**Dr Bill Gunnyeon CBE**
Cadeirydd y Cyngor

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2023 sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, mantolen a datganiad llif arian, a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (yr Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr elusen fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023 a symudiadau net ei gyllid ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail ein barn

Rydym wedi ein penodi fel archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu a weithredir o dani. Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

### Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall a, heblaw am yr hyn a fynegwn yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall ei bod yn gamddatganiad perthnasol. Os byddwn yn nodi anghysondeb neu gamddatganiadau perthnasol o'r fath, mae'n ofynnol i ni bennu a oes yna gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu yn y wybodaeth arall. Os casglwn, ar sail y gwaith a wnaethom, fod y wybodaeth arall yma'n gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Materion y gofynnir i ni adrodd arnynt trwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd amdanynt wrthych chi, os ydym o'r farn:

- nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr [ar dudalen 30], mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn ei hystyried sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n briodol, faterion yn ymwneud â'r busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu'r busnes hyfyw oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â gweithrediadau i ben, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol o ran a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y gall ein gweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Ar sail ein dealltwriaeth o'r elusen a'i hamgylchedd gweithredu, fe wnaethom nodi mai'r prif risgiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw'r rhai sy'n ymwneud â gofynion rheoleiddio Deddf Ostepathiaid 1993, ac fe wnaethom ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol hefyd megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), deddfwriaeth trethiant, Deddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth cyflogaeth.

Gwerthuswyd cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr i newid y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau) a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n ymwneud â phostio cofnodion amhriodol i refeniw a rhagfarn reoli mewn amcangyfrifon cyfrifyddu. Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd gan y tîm ymgysylltu yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu achosion tybiedig o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr oedd â'r nod o atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cofnodion cyfrifeg, yn enwedig y cofnodion hynny oedd yn arddangos y nodweddion yr oeddem wedi'u nodi fel dangosyddion posibl o afreoleidd-dra; a
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu critigol.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na fyddwn yn canfod pob afreoleidd-dra, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith neu reoliad ei dileu o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, gan y byddwn yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae'r risg yn fwy hefyd o ran afreoleidd-dra sy'n digwydd oherwydd twyll yn hytrach na chamgymeriad, gan fod twyll yn golygu cuddio, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gamliwio'n fwriadol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

**Defnyddio ein hadroddiad**

Ar gyfer aelodau'r elusen yn unig, fel corff, y paratowyd yr adroddiad hwn, yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallwn ddatgan wrth ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan mewn adroddiad Archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, mewn perthynas â'n gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, neu ein barn.

**Haysmacintyre LLP**
Archwilwyr Statudol

10 Queen Street Place
Llundain EC4R 1AG

## Datganiad o Weithgareddau Ariannol

| Ar 31 Mawrth 2023 | Nodiadau | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Incwm o** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 2 | **2,996,818** | 2,868,947 |
| Buddsoddiadau | 3 | **(6,334)** | 15,037 |
| **Cyfanswm** | | **3,003,152** | 2,883,984 |
| | | | |
| **Gwariant ar** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | **2,965,847** | 2,775,306 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **2,965,847** | 2,775,306 |
| | | | |
| Incwm net cyn (colledion)/enillion ar fuddsoddiadau | | **(37,305)** | 108,678 |
| | | | |
| (Colledion)/enillion net ar fuddsoddiadau | | **(83,459)** | 3,327 |
| **(Gwariant)/incwm net** | | **(£46,154)** | 112,005 |
| | | | |
| **Cysoniad cronfeydd** | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | **2,904,918** | 2,792,913 |
| **Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen** | 14 | **2,858,764** | 2,904,918 |


Mae’r gwarged/diffyg am y flwyddyn yn deillio o weithrediadau parhaus y Cyngor.

Mae’r holl incwm a gwariant yn anghyfyngedig.

## Mantolen

| Ar 31 Mawrth 2023 | Nodiadau | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | **2,709** | 6,709 |
| Asedau diriaethol | 8 | **1,587,871** | 1,643,541 |
| Buddsoddi (portffolio) | 9 | **1,167,992** | 1,249,568 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **2,758,572** | 2,899,818 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 10 | **393,947** | 384,449 |
| Arian parod yn y banc ac wrth law | | **791,404** | 825,254 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **1,185,351** | 1,209,703 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Credydwyr: symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 11 | **(1,019,659)** | (1,139,103) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,019,659)** | (1,139,103) |
| | | | |
| **Asedau cyfredol net** | | **165,692** | 70,600 |
| | | | |
| Darpariaethau | 13 | **(65,500)** | (65,500) |
| **Asedau net** | | **2,858,764** | 2,904,918 |
| | | | |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig | | | |
| - Cronfeydd wrth gefn dynodedig | | **222,093** | 182,093 |
| - Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | | **2,676,671** | 2,722,825 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | 14 | **2,858,764** | 2,904,918 |

Wedi'i gymeradwyo a'i awdurdodi i'w gyhoeddi gan aelodau'r Cyngor ar 20 Gorffennaf 2023 a'i lofnodi ar eu rhan gan:



**Dr Bill Gunnyeon CBE**
Cadeirydd

## Datganiad Llif Arian

| Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 | Nodiadau | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cysoniad (gwariant)/incwm net i lif arian net o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| (Gwariant)/incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | | **(46,154)** | 112,005 |
| Dibrisiant | | **66,533** | 67,057 |
| Colledion/(enillion) ar fuddsoddiad | | **81,576** | (14,943) |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | | **4,451** | 94 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn dyledwyr | 10 | **(9,498)** | 227,210 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr | 11 | **(119,444)** | 78,823 |
| **Arian net a ddarparwyd gan /(a ddefnyddir mewn) gweithgareddau gweithredu** | | **22,536** | 470,246 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | | **(4,451)** | 94 |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | 8 | **(6,863)** | (46,201) |
| Ychwanegiad portffolio buddsoddi | | **–** | (53) |
| **Arian net (a ddefnyddir mewn) gweithgareddau buddsoddi** | | **(11,314)** | (46,160) |
| **Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd** | | **(33,850)** | 424,086 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | **825,254** | 401,168 |
| **Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **791,404** | 825,254 |
| **Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **791,404** | 825,254 |

## Nodiadau ar y datganiadau ariannol – Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023

**1. Prif bolisïau cyfrifyddu**

**Sail cyfrifyddu**

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 ac mae wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, a chyfeiriad ei brif swyddfa yw Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, Llundain SE1 3LU.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â SORP Elusennau (FRS 102) 'Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Elusennau 2011.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan ailbrisio buddsoddiadau.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling (£). Mae'r Cyngor yn bodloni'r diffiniad o 'endid budd cyhoeddus' o dan FRS 102.

**Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu allweddol**

Er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor wedi adolygu ei bolisïau cyfrifyddu a'r symiau a gofnodwyd yn y cyfrifon blynyddol i sicrhau bod unrhyw amcangyfrifon a dyfarniadau sydd â'r risg fwyaf o achosi addasiad perthnasol i'r cyfrifon yn cael eu datgelu. Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw amcangyfrifon na dyfarniadau arwyddocaol ynghlwm wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac eithrio'r ddarpariaeth ynghylch y posibilrwydd o daliadau ychwanegol i banelwyr sy'n deillio o achos tribiwnlys cyflogaeth sy'n parhau sy'n cynnwys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**Asedau anniriaethol**

Yn unol â SORP Elusennau (FRS 102), mae cost gweinyddwyr a meddalwedd cwmwl (sy'n costio mwy na £750) yn cael eu trin fel asedau anniriaethol a byddant yn destun amorteiddio. Darperir amorteiddio ar asedau anniriaethol, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd cyfrifiadurol | 5 mlynedd |

**Asedau sefydlog diriaethol**

Mae'r holl asedau sydd â bywyd economaidd defnyddiol o fwy na blwyddyn, ac sy'n costio mwy na £1,000 (neu fwy na £750 ar gyfer offer cyfrifiadurol), yn cael eu cyfalafu. Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeilad rhydd-ddaliadol | 50 mlynedd |
| Dodrefn swyddfa | 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 3 blynedd |
| Caledwedd cyfrifiadurol | 3 blynedd |

Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio.

**Incwm**

Cydnabyddir incwm ffioedd cofrestru ac incwm ffioedd eraill dros y cyfnod y darperir gwasanaeth ac felly mae'r Cyngor yn ennill hawl i'r incwm, ar gyfer incwm ffioedd cofrestru mae hyn dros gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y cafodd yr unigolyn ei gofnodi gyntaf ar y Gofrestr. Cyfrifir incwm buddsoddi gan gynnwys incwm llog banc fel incwm a enillwyd.

### Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau'n cael eu prisio ar werth y farchnad fel ar ddyddiad y fantolen. Mae enillion a cholledion a sylweddolwyd ac nas sylweddolwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau'n cael eu credydu neu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr a'r bwriad yw i'r arian hwnnw gael ei ddal i gynhyrchu elw am fwy na 12 mis.

### Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff atebolrwydd ei fesur ar sail cydnabyddiaeth ar ei gost hanesyddol ac yna ei fesur wedyn ar yr amcangyfrif gorau o'r swm sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd.

### Gwariant

Mae'r holl wariant yn cael ei gyfrif ar sail croniadau. Caiff atebolrwydd ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn ymrwymo i rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti. Mae gwariant sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag un gweithgaredd yn cael ei ddyrannu i'r gweithgaredd hwnnw yn y nodiadau ar y datganiadau ariannol. Mae'r costau y gellir eu priodoli i fwy nag un categori gwariant yn cael eu dosrannu ar sail yr amcangyfrif o faint o amser staff y gellir ei briodoli i'r gweithgaredd hwnnw yn y flwyddyn.

### Cyfraniadau pensiwn

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer gweithwyr cymwys. Codir cyfraniad y cyflogwr am y flwyddyn i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y mae'n cael ei ennill gan y gweithiwr.

### Cyfrifyddu cronfeydd

Mae'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn aelodau'r Cyngor i hyrwyddo amcanion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig a neilltuir yn ôl disgresiwn aelodau'r Cyngor at ddibenion penodol.

### Adneuon tymor byr

Mae adneuon tymor byr yn cynnwys symiau arian parod a gaiff eu dal ar adnau gyda banciau cydnabyddedig.

### Busnes hyfyw

Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u cronni dros gyfnodau ariannol blaenorol er mwyn gwrthsefyll unrhyw amgylchiadau annisgwyl, ac mae aelodau'r Cyngor yn parhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi bod yn monitro, a byddant yn parhau i fonitro, effaith ariannol y coronafeirws ar y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad bod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno ar sail busnes hyfyw.

### Offerynnau ariannol

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol o fath sy'n cyfrif fel offerynnau ariannol sylfaenol. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail eu gwerth fel trafodion ac wedi hynny fe'u mesurir ar sail cost amortedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Mae asedau ariannol a gaiff eu dal ar sail cost amortedig yn cynnwys arian parod a banc ac mewn llaw, ynghyd â masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol a gaiff eu dal ar sail cost amortedig yn cynnwys croniadau, masnach a chredydwyr eraill.

## 2. Incwm o weithgareddau elusennol

Ffioedd cofrestru yw'r brif ffynhonnell incwm, gydag incwm arall yn cael ei nodi yn y dadansoddiad isod:

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Ffioedd cofrestru | **2,994,788** | 2,867,347 |
| Incwm arall | **2,030** | 1,600 |
| **Cyfanswm** | **2,996,818** | 2,868,947 |

## 3. Incwm buddsoddi

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Llog o fuddsoddiadau (gan gynnwys llog banc) | **6,334** | 15,037 |
| **Cyfanswm** | **6,334** | 15,037 |

## 4. Gweithgareddau elusennol

Roedd gwariant ar gyfer pob swyddogaeth yn y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Costau uniongyrchol<br>£ | Costau cymorth<br>£ | Cyfanswm 2023<br>£ | Cyfanswm 2022<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | |
| Addysg a safonau proffesiynol | 437,773 | 260,372 | **698,145** | 681,626 |
| Cofrestru | 182,753 | 208,297 | **391,050** | 507,064 |
| Addasrwydd i ymarfer | 830,870 | 364,520 | **1,195,390** | 1,105,393 |
| Cyfathrebu ac ymchwil | 420,890 | 260,372 | **681,262** | 481,223 |
| **Cyfanswm** | **1,872,286** | **1,093,561** | **2,965,847** | **2,775,306** |

### 5. Costau cymorth

| | Rheoli £ | Llywodraethu £ | Gweinyddol £ | TG £ | Cyfanswm 2023 £ | Cyfanswm 2022 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cymorth** | | | | | | |
| Addysg a safonau proffesiynol | 125,683 | 39,778 | 64,330 | 30,581 | **260,372** | 207,469 |
| Cofrestru | 100,546 | 31,822 | 51,464 | 24,465 | **208,297** | 243,551 |
| Addasrwydd i ymarfer | 175,956 | 55,689 | 90,062 | 42,813 | **364,520** | 288,653 |
| Cyfathrebu ac ymchwil | 125,683 | 39,778 | 64,330 | 30,581 | **260,372** | 162,366 |
| **Cyfanswm** | **527,868** | **167,067** | **270,186** | **128,440** | **1,093,561** | 902,039 |

Mae costau cymorth (TG, Llywodraethu a Gweinyddu a Sefydliad) wedi'u hailgodi ar draws y meysydd busnes eraill ar sail niferoedd staff yn yr adrannau hynny.

### 6. Llywodraethu

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| **Costau llywodraethu** | | |
| Ffioedd aelodau'r cyngor (yn cynnwys Yswiriant Gwladol) | **102,261** | 99,383 |
| Costau llywodraethu eraill | **62,805** | 51,130 |
| **Cyfanswm** | **165,066** | 150,513 |

## Taliadau i aelodau anweithredol

### Aelodau'r Cyngor

Yn y flwyddyn adrodd, cyfanswm gwerth cydnabyddiaethau a dalwyd i aelodau'r Cyngor (cyfanswm o 11 i gyd) oedd £99,375 gan gynnwys lwfansau cyfrifoldeb (2022-£96,750). Yn ogystal, cyfanswm y costau a dalwyd yn uniongyrchol i aelodau'r Cyngor ac i gyflenwyr teithio a llety oedd £14,765 (2022-£4,889).

| Enw | Enw | Lleoliad | Cydnabyddiaethau £ | Yswiriant Gwladol £ |
|---|---|---|---|---|
| Bill Gunnyeon | Cadeirydd | Yr Alban | 27,000 | 2,601 |
| Joan Martin | Aelod | Gogledd Iwerddon | 7,500 | – |
| Deborah Smith | Aelod | Swydd Bedford | 7,500 | – |
| Denis Shaughnessey[4] | Aelod | Hampshire | 9,750 | 95 |
| Sarah Botterill[5] | Aelod | Cymru | 9,750 | 95 |
| Simeon London | Aelod | Yr Alban | 7,500 | – |
| Elizabeth Elander | Aelod | Swydd Gaer | 7,500 | – |
| Daniel Bailey | Aelod | Wolverhampton | 7,500 | – |
| Caroline Guy | Aelod | Ynys Wyth | 7,500 | – |
| Deborah Bowman[6] | Aelod | Llundain | 9,750 | – |
| Patricia McClure | Aelod | Gogledd Iwerddon | 5,625 | – |
| **Total** | | | **99,375** | **2,886** |

Mae'r treuliau a ddangosir yn y tabl uchod yn cynnwys y rhai a dalwyd yn uniongyrchol i aelodau'r Cyngor a'r rhai a dalwyd i gyflenwyr i dalu costau teithio a llety.

Mae Deddf Osteopathiaid 1993 yn caniatáu i aelodau o'r Cyngor gael eu talu.

4 Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a dalwyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.
5 Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a dalwyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Pobl.
6 Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a dalwyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi ac Addysg.

**Aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol**

Yn y flwyddyn adrodd, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £306 i aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol wrth fynychu cyfarfodydd a gwrandawiadau'r Cyngor. Mae aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio yn derbyn lwfans darllen o £75 y dydd hefyd a ffi sgrinio o £12.50 fesul achos sy'n cael ei sgrinio. Roedd aelodau'r pwyllgorau hyn yn hawlio ffioedd presenoldeb dyddiol a oedd yn gyfanswm o £112,608 gyda threuliau'n cael eu talu'n uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr ar gyfer teithio a llety oedd yn gyfanswm o £19,902.

**Aelodau allanol pwyllgorau eraill**

Yn y flwyddyn adrodd, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £306 i aelodau allanol y Pwyllgor Polisi ac Addysg, y Pwyllgor Archwilio a Phobl wrth fynychu cyfarfodydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Hawliodd aelodau cyfetholedig y pwyllgorau hyn ffioedd presenoldeb dyddiol o £8,568 gyda threuliau'n cael eu talu'n uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr ar gyfer teithio a llety oedd yn gyfanswm o £4,906.

**Gwariant net ar ôl codi tâl**

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| **Gwariant net am y flwyddyn a gaiff ei ddatgan ar ôl codi tâl** | | |
| Ffioedd a dalwyd i Haysmacintyre LLP | | |
| - Archwilio allanol | **21,600** | 22,630 |
| Dibrisiant asedau | **66,533** | 67,057 |

**7. Costau staff a gweithwyr**

Roedd costau staff yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| **Costau staff** | | |
| Cyflogau | **1,517,463** | 1,197,239 |
| Yswiriant Gwladol y Cyflogwr | **141,655** | 131,802 |
| Pensiynau | **121,288** | 116,264 |
| **Cyfanswm** | **1,780,406** | 1,445,305 |

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, ysgwyddwyd costau diswyddo o £0 (2021-£0).

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| **Nifer cyfartalog y staff** | | |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd | **4** | 3 |
| Addysg a Safonau Proffesiynol | **5** | 5 |
| Cofrestru | **4** | 6 |
| Adnoddau | **3** | 1 |
| Addasrwydd i Ymarfer | **7** | 7 |
| Cyfathrebu | **5** | 4 |
| **Cyfanswm** | **28** | 26 |

**Cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol**

Mae'r staff rheoli allweddol yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd; Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu; Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer.

Cyfanswm y cyflogau ar gyfer y personél rheoli allweddol oedd £379,488 (2022-£357,213).

Cyfanswm y staff yr oedd eu cyflogau trethadwy'n perthyn i fandiau cyflog uwch oedd:

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| £70,000-£80,000 | **0** | 0 |
| £80,000-£90,000 | **0** | 0 |
| £90,000-£100,000 | **2** | 2 |
| £100,000-£110,000 | **0** | 0 |
| £110,000-£120,000 | **1** | 1 |
| £120,000-£130,000 | **0** | 0 |

**Costau pensiwn**

Y cyfraniadau cyflogwr a dalwyd yn y flwyddyn, mewn perthynas â phensiynau staff unigol, oedd £121,288 (2022-£116,264).

## 8. Asedau Sefydlog Anniriaethol a Diriaethol

### Asedau anniriaethol

| | 2023<br>£ |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | **279,856** |
| Ychwanegiadau | – |
| Gwarediadau | (259,856) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **20,000** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | **273,147** |
| Tâl am y flwyddyn | **4,000** |
| Gwarediadau | (259,856) |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **17,291** |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | **6,709** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **2,709** |

Mae'r holl asedau anniriaethol yn gysylltiedig â meddalwedd cyfrifiadurol.

**Asedau Sefydlog**

| | Offer swyddfa £ | Dodrefn swyddfa £ | Caledwedd cyfrifiadurol £ | Adeilad rhydd-ddaliadol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 18,208 | 150,497 | 60,736 | 2,244,172 | **2,473,613** |
| Ychwanegiadau | – | – | 6,863 | – | **6,863** |
| Gwarediadau | (18,208) | (45,529) | (49,950) | – | **(113,687)** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | – | 104,968 | 17,649 | 2,244,172 | **2,366,789** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 18,208 | 96,612 | 54,292 | 660,960 | **830,072** |
| Tâl am y flwyddyn | – | 19,458 | 4,889 | 38,186 | **62,533** |
| Gwarediadau | (18,208) | (45,529) | (49,950) | – | **(113,687)** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | – | 70,541 | 9,231 | 699,146 | **778,918** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2022 | – | 53,885 | 6,444 | 1,583,212 | **1,643,541** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | – | 34,427 | 8,418 | 1,545,026 | **1,587,871** |

### 9. Buddsoddiadau

| | **2023**<br>**£** | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **1,249,568** | 1,234,760 |
| Ychwanegiad buddsoddi | **–** | – |
| Incwm a ailfuddsoddwyd | **17,591** | 13,411 |
| Ffioedd a gymerwyd | **(15,708)** | (13,546) |
| (Colledion)/Enillion | **(83,459)** | 14,943 |
| **Cyfanswm portffolio** | **1,167,992** | 1,249,568 |

Rheolir buddsoddiadau gan Brewin Dolphin ac fe'u cedwir mewn portffolio arallgyfeiriedig risg canolig sy'n cynnwys cymysgedd o ecwiti £651,664 bondiau £326,558 ac asedau eraill gan gynnwys arian parod £189,770.

### 10. Dyledwyr

| | **2023**<br>**£** | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | **271,019** | 264,455 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **122,928** | 113,920 |
| Dyledwyr eraill | **–** | 6,074 |
| **Cyfanswm dyledwyr** | **393,947** | 384,449 |

### 11. Credydwyr

| | **2023**<br>**£** | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | **54,137** | 115,923 |
| Incwm gohiriedig | **818,067** | 898,605 |
| Croniadau | **104,170** | 78,636 |
| Credydwyr eraill | **4,729** | 618 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | **38,556** | 45,321 |
| **Cyfanswm credydwyr** | **1,019,659** | 1,139,103 |

### 12. Incwm gohiriedig

| | **2023**<br>**£** | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | **898,605** | 823,574 |
| Swm gohiriedig yn ystod y flwyddyn | **818,067** | 898,605 |
| Swm a ryddhawyd i'r datganiadau ariannol | **(898,605)** | (823,574) |
| **Cyfanswm incwm gohiriedig** | **818,067** | 823,574 |

Caiff incwm o ffioedd cofrestru blynyddol ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r ffi cofrestru'n ymwneud ag ef. Mae'r holl incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn ganlynol.

**13. Darpariaethau**

Roedd gan yr elusen y darpariaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:

| | 2023<br>£ |
|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2022 | **65,500** |
| Ychwanegiadau | **–** |
| Wedi'i ddefnyddio yn y flwyddyn | **–** |
| Gwrthdroadau | **–** |
| Ar 31 Mawrth 2023 | **65,500** |

Mae'r ddarpariaeth wedi'i gwneud mewn perthynas â chost panelydd ychwanegol posibl, gan adlewyrchu ein hamcangyfrif darbodus o effaith ehangach bosibl hawliad tribiwnlys cyflogaeth, sy'n cynnwys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, am symiau ychwanegol gan banelydd addasrwydd i ymarfer.

Mae panelwyr yn eistedd ar ein paneli addasrwydd i ymarfer ac yn aelodau annibynnol. Mae'r hawliad hwn yn ymwneud ag a yw'r panelydd yn weithiwr, gyda hawl i dâl gwyliau. Mae'r achos wedi cael ei glywed, nid yw dyfarniad wedi'i wneud hyd yma, ac mae'r ddarpariaeth wedi'i gwneud i dalu am gostau posibl y gallai'r Cyngor Osteopatheg Cyffredinol eu hwynebu o ganlyniad i'r hawliad tribiwnlys cyflogaeth ehangach.

**14. Cronfeydd Wrth Gefn**

| | Ar 1 Ebrill 2022<br>£ | Incwm<br>£ | Gwariant<br>£ | Trosglwydd o<br>£ | Ar 31 Mawrth 2023<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn** | - | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 2,722,825 | 2,919,693 | (2,965,847) | (40,000) | **2,636,671** |
| Cronfeydd wrth gefn dynodedig | | | | | |
| - DPP | 77,093 | – | – | (77,093) | **–** |
| - Buddsoddiad TG | 75,000 | – | – | 77,093 | **152,093** |
| - Prosiect Gwerthoedd | 30,000 | – | – | – | **30,000** |
| - Canfyddiadau Unigolion Cofrestredig | – | – | – | 40,000 | **40,000** |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | 2,904,918 | 2,919,693 | (2,965,847) | – | **2,858,764** |

Mae'r cronfeydd dynodedig yn ymwneud â'r buddsoddiad uwch mewn Technoleg Gwybodaeth (TG) i symleiddio ein gweithgareddau (£152,093) y Prosiect Gwerthoedd (gwneud penderfyniadau ar y cyd) (£30,000) a'r Arolwg Canfyddiadau Unigolion Cofrestredig (£40,000) i gasglu barn a chael dealltwriaeth gan unigolion cofrestredig.

**Blwyddyn flaenorol gymharol**

| | Ar 1 Ebrill 2022<br>£ | Incwm<br>£ | Gwariant<br>£ | Trosglwyddo<br>£ | Cyfanswm Ym mis Mawrth 2023<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol wrth gefn | 2,510,820 | 2,887,311 | (2,723,701) | 48,395 | **2,722,825** |
| Cronfa ddynodedig wrth gefn | 282,093 | – | (51,605) | (48,395) | **182,093** |
| **Cyfanswm cyllid** | 2,792,913 | 2,887,311 | (2,775,306) | – | **2,904,918** |

**15. Trafodion partïon cysylltiedig**

Nid oedd unrhyw drafodion parti cysylltiedig yn ystod y flwyddyn.

Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

**Cyngor Osteopathig Cyffredinol**
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU

020 7357 6655
info@osteopathy.org.uk
**osteopathy.org.uk**

Mae'r GOsC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1172749)